**LC265**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1999 (O.S. 1999/646) er mwyn gwahardd bwydo categorïau penodol o wastraff arlwyo i dda byw, p'un a yw'r gwastraff hwnnw wedi'i brosesu neu beidio. Mae hefyd yn dileu'r posibilrwydd bod sgil-gynhyrchion o anifeiliaid heblaw mamaliaid yn cael eu rendro er mwyn cynhyrchu golchion i'w bwydo i foch neu i ddofednod.

Mae darpariaeth debyg yn cael ei gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol – y 3ydd paragraff**

Cyfeirir at 'Regulations', yn anghywir felly, gan mai Gorchymyn yw'r is-ddeddfwriaeth hon. Dylid cywiro hyn wrth gyhoeddi.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001